www.xtrapapers.com

| Cyfenw | Rhif y Ganolfan | Rhif yr Ymgeisydd |
|---|---|---|
| Enwau Eraill | | 0 |

CBAC WJEC

# TGAU

4277/51

## HANES

### UNED 1/UNED 2: Mudiadau'r Bobl yng Nghymru a Lloegr, 1815-1848

P.M. DYDD LLUN, 3 Mehefin 2013

1 awr 15 munud

| Cwestiwn | Marc a Roddwyd |
|---|---|
| 1 | 25 |
| 2 | 15 |
| 3 | 10 |
| SAG | 3 |
| Cyfanswm | 53 |

4277 510001

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Defnyddiwch inc neu feiro du.

Ysgrifennwch eich enw, rhif y ganolfan a'ch rhif ymgeisydd yn y blychau ar ben y dudalen hon.

**Atebwch BOB cwestiwn ar y papur arholiad.**

Ysgrifennwch eich atebion yn y lleoedd gwag priodol yn y llyfryn hwn.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Mae nifer y marciau wedi'i nodi mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

Cofiwch y bydd ansawdd eich cyfathrebu ysgrifenedig yn cael ei ystyried wrth asesu'r atebion sy'n cynnwys ysgrifennu estynedig, sef cwestiynau 1*(d)* a 3.

**Yn ogystal, bydd eich gallu i sillafu, atalnodi a defnyddio gramadeg yn gywir yn cael ei asesu yn eich ateb i gwestiwn 3.**

ⓗ WJEC CBAC Cyf. CJ*(S13-4277-51)

www.xtrapapers.com



Arholwr yn unig


*Atebwch* **bob** *cwestiwn.*

**CWESTIWN 1**

**Mae'r cwestiwn hwn yn ymchwiliad i bwysau bywyd gwledig yng Nghymru a Lloegr.** [25]

Astudiwch y ffynonellau isod ac yna atebwch y cwestiynau sy'n dilyn pob ffynhonnell.

**Ffynhonnell A**



[Darlun o Derfysgwyr Rebeca yn ymosod ar dollborth yn y 1840au]

*(a)* Beth mae Ffynhonnell A yn ei ddangos i chi am Derfysgoedd Rebeca? [2]

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

www.xtrapapers.com



Arholwr yn unig

**Ffynhonnell B**

Nid oedd gweision fferm *(labourers)* de Lloegr yn rhan o adferiad *(recovery)* economaidd y 1820au. Roedd incwm ffermwyr wedi gostwng ac roedd hyn wedi arwain at dalu cyflogau is i'w gweision. Roedd llawer o ffermwyr yn cael eu temtio i ddefnyddio peiriannau i arbed arian, a oedd yn gwneud sefyllfa'r gweision hyd yn oed yn waeth. Roedd trais i ddilyn.

[Rhan o werslyfr modern ar gyfer ysgolion]

*(b)* Defnyddiwch y wybodaeth yn Ffynhonnell B a'r hyn rydych chi'n ei wybod i egluro pam ddechreuodd Terfysgoedd Swing. [4]

..........

..........

..........

..........

..........

..........

..........

..........

..........

..........

..........

..........

4277
510003

www.xtrapapers.com



Arholwr
yn unig

**Ffynhonnell C**

Casglwr tollau proffesiynol oedd Thomas Bullin. Gwnaeth ei ymddygiad didrugaredd *(harsh)* gyfrannu llawer at yr aflonyddwch *(unrest)* yn yr ardal o gwmpas Efailwen. Roedd Bullin yn llym ac roedd wedi gwahardd ei gasglwyr tollau rhag gadael i rai ffermwyr lleol fynd trwodd am ddim. Nawr roedd e'n gorfodi pob ffermwr i dalu'n llawn wrth bob clwyd ac roedd adeiladu clwydi newydd wedi gwylltio'r ffermwyr cymaint nes iddyn nhw ddechrau gweithredu.

[Rhan o wefan ar y rhyngrwyd yn canolbwyntio ar hanes Terfysgoedd Rebeca yn Sir Benfro (2002)]

*(c)* I ba raddau mae Ffynhonnell C yn cefnogi'r safbwynt mai gweithredoedd casglwyr tollau fel Thomas Bullin wnaeth achosi Terfysgoedd Rebeca? [5]

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

www.xtrapapers.com



Arholwr yn unig

**Ffynhonnell CH**

22 Medi 1830

Syr,

Rwyf wedi cael gorchymyn gan ynadon Swydd Gaint *(County of Kent)* i'ch hysbysu bod dinistrio peiriannau dyrnu wedi digwydd ar raddfa ddychrynllyd iawn. Cafodd y troseddau hyn eu cyflawni yn ystod y nos gan griw cynddeiriog *(desperate)* o dros 200 o derfysgwyr. Mae'r ynadon yn ceisio dal y troseddwyr, ond gan fod llawer o dystion yn ofni'r terfysgwyr, mae'n anodd casglu unrhyw dystiolaeth i'w defnyddio yn eu herbyn. Bydd yr ynadon yn hapus i dderbyn unrhyw gyngor fyddwch chi'n dymuno ei gynnig iddynt.

[Charles Sandys, Clerc y Llys Ynadon yng Nghaergaint *(Canterbury)*, Swydd Gaint, yn ysgrifennu mewn llythyr at yr Ysgrifennydd Cartref (1830)]

*(ch)* Pa mor ddefnyddiol yw Ffynhonnell CH i hanesydd sy'n astudio gweithgareddau Terfysgwyr Swing?
*[Eglurwch eich ateb trwy ddefnyddio'r ffynhonnell a'r hyn rydych chi'n ei wybod.]* [6]

4277
510005

www.xtrapapers.com



Arholwr yn unig

Mae'r ddwy ffynhonnell hyn yn rhoi safbwyntiau gwahanol am y rhesymau y daeth Terfysgoedd Rebeca i ben.

**Ffynhonnell D**

Ni wnaeth cefnogwyr Rebeca erioed golli golwg ar eu pwrpas gwreiddiol – cael y llywodraeth i sefydlu ymchwiliad i'r system dyrpeg *(turnpike)* yng Nghymru. Unwaith y daeth yn debygol y byddai'r ymchwiliad hwn yn cael ei sicrhau, daethant â'u gweithredoedd i ben a does neb wedyn wedi cynnig eu bod yn ailddechrau.

[Thomas Frankland Lewis, Cadeirydd Ymchwiliad y Llywodraeth yn 1844, yn ysgrifennu mewn llythyr at ffrind yn 1852]

**Ffynhonnell DD**

Yr hyn a wnaeth helpu i ddod â Therfysgoedd Rebeca i ben oedd cyfuniad o weithredu cadarn a chosbi llym gan yr awdurdodau, ynghyd â'r ffordd y gwnaeth y rhan fwyaf o ffermwyr Gorllewin Cymru droi eu cefnau ar drais a dewis gweithredu'n heddychlon. Roedd y Llywodraeth wedi cymryd camau pendant hefyd i gynnal ymchwiliad i gŵynion y ffermwyr.

[David Egan, hanesydd, yn ysgrifennu mewn gwerslyfr ar gyfer ysgolion, *Pobl, Protest a Gwleidyddiaeth* (Cyfieithiad Catrin Stevens, 1987)]

*(d)* Pam mae Ffynonellau D ac DD yn rhoi safbwyntiau gwahanol am y rhesymau y daeth Terfysgoedd Rebeca i ben? [8]

*[Yn eich ateb dylech gyfeirio at gynnwys y ffynonellau a'r awduron hefyd.]*

www.xtrapapers.com



Arholwr
yn unig

25

**DIWEDD CWESTIWN 1**

www.xtrapapers.com



Arholwr yn unig

## CWESTIWN 2

**Fe wnaeth Cymru a Lloegr wynebu llawer o broblemau ar ôl 1815.** [15]

Astudiwch y darlun isod ac yna atebwch y cwestiynau sy'n dilyn.



[Darlun o Henry Hunt, Radical blaenllaw]

*(a)* Disgrifiwch beth ddigwyddodd yn St. Peter's Field, Manceinion ym mis Awst 1819. [4]

....................................................................................................................................................................

....................................................................................................................................................................

....................................................................................................................................................................

....................................................................................................................................................................

....................................................................................................................................................................

....................................................................................................................................................................

....................................................................................................................................................................

....................................................................................................................................................................

....................................................................................................................................................................

....................................................................................................................................................................

....................................................................................................................................................................

....................................................................................................................................................................

www.xtrapapers.com



Arholwr yn unig

*(b)* Eglurwch pam roedd llawer o bobl o'r dosbarth gweithiol yn cefnogi Radicaliaeth ar ôl 1815. [5]

www.xtrapapers.com



Arholwr yn unig

*(c)* Pa mor bwysig oedd y Chwe Deddf o ran cyfyngu ar *(restricting)* ryddid pobl? [6]

.....................................................................................................................................

.....................................................................................................................................

.....................................................................................................................................

.....................................................................................................................................

.....................................................................................................................................

.....................................................................................................................................

.....................................................................................................................................

.....................................................................................................................................

.....................................................................................................................................

.....................................................................................................................................

.....................................................................................................................................

.....................................................................................................................................

.....................................................................................................................................

.....................................................................................................................................

.....................................................................................................................................

.....................................................................................................................................

.....................................................................................................................................

.....................................................................................................................................

15

**DIWEDD CWESTIWN 2**

www.xtrapapers.com



Arholwr
yn unig

## CWESTIWN 3

**Roedd llawer o brotestiadau diwydiannol yng Nghymru a Lloegr yn y 1830au.**

A gafodd y protestiadau diwydiannol yng Nghymru a Lloegr yn y 1830au unrhyw lwyddiant? [10]

*Yn eich ateb dylech drafod:*

- *y llwyddiannau gafodd y protestiadau diwydiannol yn y 1830au;*
- *ffyrdd yr oedd protestiadau diwydiannol y 1830au wedi methu.*

*Yn y cwestiwn hwn, mae marciau'n cael eu rhoi am sillafu, atalnodi a defnyddio gramadeg yn gywir.* [3]

www.xtrapapers.com



Arholwr yn unig

10

**DIWEDD CWESTIWN 3**

**DIWEDD Y PAPUR**

SAG 3